



Gangmasters &
Labour Abuse Authority

Welsh



Hawliau GWEITHWYR

Diogelu gweithwyr bregus
a rhai sy'n cael eu hecsbloetio

Eich hawliau cyflogaeth

Mae eich hawliau fel gweithiwr wedi eu diogelu gan gyfraith y DU. Mae rhai hawliau'n berthnasol cyn gynted ag y cewch swydd, mae eraill yn dibynnu ar ba mor hir yr ydych yn gweithio. Mae'r adran hon yn nodi beth ddylech ei ddisgwyl gan eich cyflogwr. Dyma eich hawliau cyfreithiol.

Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Os ydych chi mewn swydd barhaol, ar gontract tymor byr neu'n gweithio i asiantaeth, dylech dderbyn o leiaf yr isafswm cyflog priodol. Gallai hwn fod yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW) neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol (NLW), yn dibynnu ar eich oedran.

Os ydych chi'n derbyn tâl 'gwaith ar dasg' (e.e. am nifer yr eitemau yr ydych yn eu cwblhau, pecynnu, pigo ac ati) yna dylech barhau i ennill o leiaf yr hyn sy'n cyfateb i'r isafswm cyflog perthnasol. Mae ychydig o eithriadau i hyn, gan gynnwys gweithwyr hunangyflogedig a gweithwyr gwirfoddol.

I gael rhagor o wybodaeth am y cyfraddau Isafswm Cyflog a Chyflog Byw ewch i **GOV.UK** a chwiliwch am '**NMW**' (Isafswm Cyflog).

Oriau gwaith

Nid oes rhaid i chi weithio mwy na 48 awr yr wythnos, yn cynnwys unrhyw oramser, oni bai eich bod wedi dewis gwneud hynny.

Mae gennych hawl i gael o leiaf un diwrnod i ffwrdd o'r gwaith yr wythnos, neu ddau ddiwrnod i ffwrdd bob pythefnos. Os ydych chi'n gweithio mwy na chwe awr y dydd, dylech gael seibiant gorffwys am o leiaf 20 munud.

Gwyliau blynyddol

O dan y gyfraith mae gennych hawl i isafswm nifer o wythnosau o wyliau taledig y flwyddyn, gan ddechrau o'ch diwrnod cyntaf yn y gwaith. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr rhan-amser a gweithwyr contract cyfnod penodol. Chwiliwch am **'pay and work rights'** (hawliau gwaith a thâl) ar **GOV.UK** i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Dylai manylion eich hawl i wyliau fod yn eich contract cyflogaeth. Mae wedi'i seilio ar eich oriau gwaith arferol (pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser), a gronnir yn ystod yr amser yr ydych yn gweithio i'ch cyflogwr a dylid eich talu adeg gwyliau ar eich cyfradd gweithio arferol. Mae gan eich cyflogwr yr hawl i benderfynu pryd rydych yn cymryd eich gwyliau ond os ydych chi'n cael trafferth sicrhau caniatâd dylech ffonio'r GLAA.

Pan fyddwch yn gadael eich swydd, dylech gael eich talu am unrhyw wyliau a gronnwyd gennych ond sydd heb eu cymryd. Os na fydd eich cyflogwr yn caniatáu i chi gymryd unrhyw wyliau neu os oes tâl gwyliau'n ddyledus i chi, gallwch gysylltu â Llinell Gymorth Acas neu Gyngor ar Bopeth i gael canllawiau ynglŷn â hawlio'r arian. Gweler www.gla.gov.uk/contacts am gymorth i ddod o hyd i rifau cyswllt ychwanegol.

Slip tâl eitemedig

Dylech dderbyn slip tâl ar y diwrnod y cewch eich talu, sy'n dangos eich tâl gros a'ch tâl mynd adref. Gall hwn fod wedi'i argraffu neu ar ffurf dogfen electronig a dylai hefyd restru'r swm a'r rheswm dros unrhyw ddidyniad o'ch tâl.

Gall didyniadau megis treth ac Yswiriant Gwladol newid yn wythnosol a dylid eu rhestru ar bob slip tâl. Dylech dderbyn eich tâl a gytunwyd yn brydlon a dylai gynnwys unrhyw dâl gwyliau neu dâl salwch sy'n ddyledus i chi.

Didyniadau o gyflog

Dim ond rhai didyniadau penodol y gall eich cyflogwr eu tynnu o'ch cyflog a rhaid iddynt gael eu rhestru ar eich slip tâl. Dylech bob amser dderbyn y 'swm net' a ddangosir ar y slip ar ôl i ddidyniadau gael eu tynnu.

Mae rhai didyniadau'n statudol, megis treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol, a bydd eraill y byddwch efallai wedi cytuno iddynt yn eich contract cyflogaeth, e.e. taliadau llety neu gludiant. Dylech nodi y gall rhai didyniadau y sonnir amdanynt mewn contractau fod yn anghyfreithlon. Os nad ydych yn siŵr, gwiriwch gyda'r GLAA.

Hyd yn oed os ydych wedi cytuno i ddidyniad rhaid iddo beidio â gostwng eich tâl isafswm cyflog perthnasol, ar wahân i swm cyfyngedig ar gyfer llety. Chwiliwch am **'pay and work rights'** ar **GOV.UK** i gael rhagor o wybodaeth.

Iechyd a diogelwch

Mae gan eich cyflogwr gyfrifoldeb cyfreithiol dros eich iechyd a'ch diogelwch yn y gwaith. Dylech dderbyn gwybodaeth iechyd a diogelwch, hyfforddiant, dillad diogelu ac unrhyw ddillad sydd eu hangen yn eu lle am ddim, lle bo hynny'n briodol.

Tâl salwch

Dylai eich contract cyflogaeth nodi'r tâl y byddwch yn ei dderbyn os byddwch yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch. Yr isafswm y mae gennych hawl iddo yn y DU yw Tâl Salwch Statudol (SSP). Mae hyn yn berthnasol pan fyddwch yn absennol o'r gwaith am bedwar diwrnod neu fwy yn olynol. Efallai y bydd eich contract yn rhoi tâl neu fuddion ychwanegol i chi mewn amgylchiadau eraill.

Eich telerau ac amodau

Cytundeb yw hwn rhyngoch chi a'ch cyflogwr. Yn ôl y gyfraith, os ydych wedi cael eich cyflogi am dros fis mae'n rhaid i chi dderbyn manylion ysgrifenedig eich telerau ac amodau.

Dylech dderbyn telerau ac amodau cyflogaeth ysgrifenedig o fewn deufis o ddechrau gweithio, ac mae'n rhaid iddynt gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- Eich enw
- I bwy y byddwch yn gweithio
- Pa fath o waith y byddwch yn ei wneud
- Y dyddiad y gwnaethoch ddechrau gweithio
- Eich gweithle
- Eich cyfradd tâl a pha mor aml y byddwch yn cael eich talu (yn wythnosol neu'n fisol)
- Oriau gwaith
- Hawl i wyliau
- Hawl i dâl salwch
- Y gweithdrefnau disgyblu, diswyddo a chwyno
- Y cyfnod rhybudd y mae'n rhaid i chi ei roi os ydych yn ymddiswyddo, neu ei dderbyn yn dilyn cael eich diswyddo

Dim ond gyda'ch caniatâd chi y gall eich cyflogwr newid telerau ac amodau eich contract.

Cysylltu â ni



Gangmasters & Labour Abuse Authority

PO Box 10272, Nottingham, NG2 9PB

www.gla.gov.uk

E-bost: **intelligence@glaa.gsi.gov.uk**



+44 (0)345 602 5020

Llinell riportio gyfrinachol am ddim:



0800 432 0804

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.gla.gov.uk/contacts**



Gangmasters &
Labour Abuse Authority



UNIVERSITY
of DERBY

Ariennir y taflenni gan

GLAA Academy

mewn partneriaeth â

Phrifysgol Derby



Ynglŷn â'r GLAA

Sefydliad a sefydlwyd i ddiogelu gweithwyr rhag cael eu hecsbloetio yw'r The Gangmasters & Labour Abuse Authority (GLAA).

Rydym yn cyflogi ymchwilwyr arbenigol a all ymchwilio i broblemau gweithwyr, sy'n amrywio o dandalu cyflogau i droseddau llafur gorfodol, masnachu pobl cysylltiedig ac agweddau eraill ar gaethwasiaeth fodern.

Mae'r GLAA yn parhau i weithredu cynllun trwyddedu cadarn ar gyfer 'meistri gangiau' - cwmnïau ac unigolion sy'n cyflenwi gweithwyr ar gyfer sector cynnyrch ffres y DU. Mae hyn yn cwmpasu amaethyddiaeth, garddwriaeth, casglu pysgod cregyn a'r holl waith prosesu a phecynnu cysylltiedig.

Rhaid i bob meistr gang trwyddedig gydymffurfio â set o safonau trwyddedu llym. Mae cyflenwi gweithwyr dros dro i'r diwydiannau a restrir uchod heb drwydded yn drosedd sydd ag uchafswm dedfryd o 10 mlynedd o garchar. Mae hi hefyd yn drosedd i wneud cytundebau â darparwr llafur didrwydded. Mae uchafswm dedfryd o chwe mis o garchar ar gyfer hynny.

Helpwch i atal gweithwyr rhag cael eu hecsbloetio

Rydym angen eich help chi i ddiogelu eich hawliau a sicrhau eich bod yn gweithio o dan yr amodau y mae gennych hawl iddynt yn ôl y gyfraith. Cysylltwch â ni os ydych yn teimlo nad ydych wedi cael eich trin yn briodol, yn deg neu'n gyfreithlon.

Heb eich gwybodaeth chi ni allwn helpu

Gallwch:

- Ffonio **0345 602 5020** (Dewis 2) i siarad yn uniongyrchol â ni - Dydd Llun hyd Ddydd Gwener, 9am - 5pm (mae cyfieithwyr ar gael)
- Anfon e-bost at **intelligence@glaa.gsi.gov.uk**
- Ffonio ein llinell riportio gyfrinachol AM DDIM ar **0800 432 0804**
- Cyflwyno gwybodaeth drwy ein gwefan yn **www.gla.gov.uk**
- Ysgrifennu atom yn GLAA, PO Box 10272, Nottingham, NG2 9PB

Os hoffech drafod eich hawliau cyflogaeth gyda chynghorydd profiadol, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol neu ffoniwch Linell Gymorth ACAS ar **0300 123 1100**.

Safonau Trwyddedu GLAA

Mae'n ofynnol o dan gyfraith y DU i'ch cyflogwr ddiogelu gweithwyr rhag cael eu trin yn wael a'u hecsbloetio.

Mae'r un cyfreithiau'n caniatáu i chi rai hawliau penodol ac mae'r rhain yn ymwneud â materion megis:

- Eich cyflog - dylech dderbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol
- Faint o dâl gwyliau rydych yn ei dderbyn
- Telerau ac amodau eich contract
- Hyd ac amllder seibiannau gwaith
- Sut y cewch eich trin yn y gwaith
- Diogelu eich iechyd, lles a diogelwch trwy weithredu mewn modd sy'n eich cadw'n ddiogel a/neu ddarparu offer diogelwch pan fo'i angen
- Safon y llety a'r cludiant os darperir hwy gan eich cyflogwr

Safonau Trwyddedu GLAA - parhad

Mae'r un hawliau hefyd wedi'u diogelu trwy'r safonau sy'n gysylltiedig â thrwydded GLAA.

Dylai fod gan eich cyflogwr drwydded gyfredol os ydych chi'n cael eich cyflenwi i weithio ym meysydd amaethyddiaeth, garddwriaeth, casglu pysgod cregyn ac unrhyw waith prosesu a phecynnu cysylltiedig.

Os ydych chi'n poeni bod rhywun yn gweithredu heb drwydded, neu ddim yn cadw at y gofynion cyfreithiol, cysylltwch â'r GLAA.